# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

# 03/11/2009

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Cwpan Ryder

**C12 William Graham:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gamau mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau y bydd y seilwaith trafnidiaeth o amgylch Casnewydd yn diwallu'r gofynion trafnidiaeth yn ystod twrnamaint Cwpan Ryder? OAQ(3)2336(FM)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Yr ydym wrthi'n datblygu cynllun trafnidiaeth ar gyfer Cwpan Ryder gyda Cyngor Dinas Casnewydd, yr heddlu a threfnwyr y digwyddiad i ddatrys problemau yn yr ardal. Fel rhan o hyn, caiff y gwaith ar y rhwydwaith cefnffyrdd a ffyrdd lleol ei atal am gyfnod cyn y digwyddiad ac yn ystod y digwyddiad.

### Newid yn yr Hinsawdd

**C13 Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gamau mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd? OAQ(3)2335(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn hollol benderfynol o fynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd. Yn ddiweddar, yr ydym wedi cwblhau ymgynghoriad cyhoeddus ar raglen weithredu ein strategaeth newid yn yr hinsawdd a oedd yn egluro'r camau mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yng Nghymru.

### Economi a Thrafnidiaeth

**C14 Jenny Randerson:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am lwyddiannau Adran yr Economi a Thrafnidiaeth? OAQ(3)2355(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae'r adran wedi cyflwyno Cymorth Hyblyg i Fusnes a'r gronfa fuddsoddi sengl, wedi cyflawni ei thargedau o dan raglenni cronfeydd strwythurol 2007-13, ac wedi cyflwyno cronfa JEREMIE. O ran trafnidiaeth, mae wedi lansio strategaeth drafnidiaeth cymru a'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol, wedi cyflwyno Mesur teithio gan ddysgwyr ac wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran trefi teithio cynaliadwy.

### Sgiliau yng Nghymru

**C15 Lesley Griffiths:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i wella sgiliau yng Nghymru? OAQ(3)2332(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae codi lefelau sgiliau wedi bod yn rhan ganolog o ddull Llywodraeth y Cynulliad o arwain Cymru allan o'r dirwasgiad. Drwy dargedu'r camau yr ydym wedi'u cymryd i integreiddio cyflogaeth a sgiliau, diogelu swyddi, sicrhau buddsoddiad parhaol mewn prentisiaethau ac estyn cefnogaeth i gyflogwyr drwy raglenni megis ProAct, yr ydym wedi codi lefelau sgiliau a chael canmoliaeth eang.